

Ionawr 2022

Papur sefyllfa egwyddorion sero net

Ofwat

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r papur hwn yn nodi disgwyliadau mewn tri maes allweddol er mwyn arwain gwaith cynllunio cwmnïau dŵr ar sero net. Mae'n manylu ar ein disgwyliadau ar gyfer gweithredu mewn perthynas â:

- gosod targedau sero net;
- cwmpas y gweithredu ar sero net; a
- blaenoriaethu lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG).

Yn benodol, mae'r papur hwn yn esbonio pam ein bod o'r farn y dylai targedau sero net cwmnïau gyd-fynd â thargedau llywodraeth cenedlaethol, pam mae angen i gamau gweithredu cwmnïau ar sero net gwmpasu allyriadau gweithredol a chorfforedig, a pham y dylai cwmnïau flaenoriaethu lleihau allyriadau NTG cyn defnyddio mesurau gwrthbwysu. Rydym hefyd yn amlinellu ein camau nesaf.

Bwriedir i'r papur hwn lywio gwaith cynllunio sero net cwmnïau dŵr ac ysgogi trafodaeth gyda ni ynglŷn â sut y gallwn gefnogi'r sector i gyrraedd targedau sero net.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Gosod targedau sero net.....	6
3. Cwmpas gweithredu cwmnïau ar sero net.....	8
4. Blaenoriaethu gostyngiadau	10
5. Y camau nesaf.....	12

1. Cyflwyniad

Yn ein strategaeth, '[Amser i weithredu, gyda'n gilydd](#)', gwnaethom ymrwymo i gryfhau dull y sector ar gyfer lliniaru ac addasu i hinsawdd sy'n newid, gan adeiladu ar ymrwymiad blaenorol y cwmnïau i sicrhau allyriadau sero net erbyn 2030 a'u gwthio i wneud popeth y gallant i fod yn barod am yr heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd.¹ Mae hyn yn golygu sicrhau bod cwmnïau'n ymateb i heriau hirdymor tra'n darparu mwy i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd.

Mae sector dŵr y DU yn defnyddio 3% o'r trydan y mae'r wlad yn ei gynhyrchu ac yn gyfrifol am tua 1% o allyriadau NTG y DU, sydd yn ei dro yn cynrychioli bron i draean o allyriadau prosesau diwydiannol a gwastraff y DU. Mae gan gwmnïau dŵr ran allweddol i'w chwarae yng nghyd-destun cyffredinol targed llywodraethau'r DU a Chymru o gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050, ac yn gyfrannol mae ganddynt ran fawr i'w chwarae mewn datgarboneiddio gweithgareddau'r sector 'Cyflenwi Dŵr, Carthffosiaeth, Rheoli Gwastraff ac Adferiad', sef y pumed allyrlydd mwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr².

Mae'n ganmoladwy bod cwmnïau dŵr wedi lleihau allyriadau gweithredol gros gan bron i 45% rhwng 2011-12 a 2018-19. Er bod hyn i raddau helaeth o ganlyniad i ddatgarboneiddio'r grid trydan, mae'n bwysig cydnabod y byddai allyriadau wedi cynyddu'n sylweddol heb fwy o effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau'r galw³.

Rydym yn gefnogol i waith y cwmnïau ar sero net, gan gynnwys yr uchelgais sydd wedi'i grynhai gan Fap Trywydd 2030 Water UK⁴. Rydym yn gweld targed 2030 y Map Trywydd ar gyfer sero net mewn allyriadau gweithredol fel cam pwysig tuag at y nod o sero net erbyn 2050. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod sero net yn cael ei gyflawni erbyn 2050, bydd angen i gwmnïau fynd y tu hwnt i'r hyn a gynigir yn y Map Trywydd, gan fynd i'r afael ag allyriadau gweithredol a chorfforedig yn gyfochrog a chwmpasu'r holl allyriadau gweithredol.

Wrth ddatblygu eu dulliau ar gyfer sero net, bydd angen i gwmnïau sicrhau bod eu cynlluniau'n glir, yn dryloyw ac yn gallu cael eu deall gan randdeiliaid. Mae hyn yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i randdeiliaid gefnogi a herio cwmnïau yn briodol ar eu llwybr i sero net, gan ganolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Yn ein hymgyngoriad diweddar - [PR24 a Thu Hwnt: Creu yfory, gyda'n gilydd](#) - a nododd weledigaeth Ofwat ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid yn PR24, gwnaethom amlinellu rhai materion allweddol y dylai'r diwydiant eu hystyried wrth benderfynu sut y gallai symud i sero

¹ Mae sero net yn cyfeirio at gael cydbwysedd rhwng faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG) sy'n cael eu rhoi i'r atmosffer, a'r swm sy'n cael ei dynnu allan o'r atmosffer. Mae allyriadau NTG yn cyfeirio at 'fasged Kyoto' o'r chwe NTG mwyaf pwerus. Y rhain yw Carbon deuocsid, methan, ocsid nitraidd, nwyon-F (hydrofflorocarbonau a perfflorocarbonau) a sylffwr hecsafflorid.

² Fel y diffinnir a manylir yn '[Net Zero review: interim report](#)', Trysorlys EM 2020.

³ Water UK, '[Net Zero 2030 Routemap](#)', 2020.

⁴ O'r pwynt hwn ymlaen yn y papur, cyfeirir ato'n syml fel y 'Map Trywydd'.

net. Yn benodol, gwnaethom grybwyll yr angen i gwmnïau ystyried targedau hirdymor y llywodraeth ar sero net, yr angen i ystyried allyriadau gweithredol a chorfforedig yn gyfochrog i sicrhau y gellir cyrraedd targed sero net 2050, gyda'r angen i'r prif ffocws yn PR24 fod ar leihau allyriadau NTG, yn hytrach na'u gwrthbwysu. Dangosodd ymatebion cwmnïau i'r ddogfen hon gefnogaeth eang i'r cynigion hyn.

Rydym yn cydnabod bod yna lawer o heriau i gyflawni sero net ac rydym am i gwmnïau fod yn y sefyllfa orau bosibl i allu ymateb i'r heriau hynny. O ganlyniad, yn y papur hwn rydym yn egluro ein syniadaeth mewn tri maes allweddol sy'n hanfodol i gyflawni sero net.

- Rydym yn disgwyl i gynlluniau cwmnïau gyd-fynd â thargedau sero net llywodraeth genedlaethol.
- Dylai gweithredu ar sero net fynd i'r afael ag allyriadau gweithredol a chorfforedig yn gyfochrog.
- Mae angen i gwmnïau flaenoriaethu lleihau allyriadau NTG cyn defnyddio mesurau gwrthbwysu, fel y nodir yn Hierarchaeth Rheoli NTG⁵.

Mae'n bwysig ein bod yn glir ynglŷn â'r materion allweddol hyn fel y gall cwmnïau gynllunio'n briodol ar gyfer eu strategaethau sero net, yn enwedig wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer PR24.

⁵ Mae [Hierarchaeth Rheoli NTG](#), fel y manylir arno gan y Sefydliad Rheolaeth ac Asesu Amgylcheddol (fersiwn 2020) yn fframwaith y gall sefydliadau ei ddefnyddio i arwain cwmpasu a chynllunio strategol eu gweithgareddau rheoli ynni a charbon.

2. Gosod targedau sero net

Rydym yn disgwyl i gynlluniau sero net cwmnïau gael eu cysylltu'n glir â thargedau llywodraeth genedlaethol

Er mwyn cyflawni sero net mewn modd graddol erbyn 2050, mae llywodraeth y DU wedi cytuno ar gyfres o dargedau interim, yn benodol toriad cyffredinol o 78% yn allyriadau'r DU erbyn 2035, gyda Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i doriad o 89% erbyn 2040⁶. Mae llywodraeth y DU, trwy ei Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol, yn ei gwneud yn glir y bydd angen i allyriadau diwydiannol leihau gan ddwy ran o dair erbyn 2035 os yw'r DU am gyrraedd sero net erbyn 2050. Fodd bynnag, mae llywodraeth y DU, trwy ei Strategaeth Sero Net a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi diweddarau'r disgwyliad hwn i leihad o 63-76%.⁷

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Water UK ei Ymrwymiad Budd Cyhoeddus yn nodi y bydd cwmnïau dŵr yn Lloegr yn anelu at sicrhau allyriadau sero carbon net erbyn 2030. Ym mis Tachwedd 2020, lansiodd Water UK ei Fap Trywydd Sero Net 2030 yn nodi, ar lefel uchel, sut y gallai'r sector dŵr yn y DU leihau allyriadau NTG trwy newidiadau ymddygiadol o ran defnydd/galw, mabwysiadu arloesedd a thechnoleg, a defnyddio mesurau gwrthbwysu. Fodd bynnag, nid yw'r Map Trywydd yn mynd i'r afael ag allyriadau o ddefnyddio cemegion, allyriadau corfforedig, na chael gwared ar slwtsh i dir. Mae hyn yn golygu bod ffocws y Map Trywydd yn rhannol gan nad yw'n glir sut y bydd sero net yn cael ei gyflawni erbyn 2050 na sut y bydd targedau sero net interim, nad ydynt yn cyd-fynd ag amserlen y Map Trywydd, yn cael eu cyflawni⁸.

Yn eu tro dylai targedau interim y llywodraeth, megis targed 2035, gael eu hystyried fel carreg lamu y dylid ei defnyddio i gynllunio a monitro eu gweithredu ar sero net. Bydd y dull tymor hwy hwn yn helpu gwariant seiliedig ar sero net i gael ei gyflwyno fesul cam y tu hwnt i PR24 ac wrth wneud hynny bydd yn helpu i sicrhau'r gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym yn cydnabod bod rhai cwmnïau'n mabwysiadu'n rhagweithiol ac yn gweithio tuag at ofynion y fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi)⁹, a fwriedir i roi llwybr wedi'i ddiffinio'n glir i gwmnïau gyflawni sero net erbyn 2050. Lle mae cwmnïau'n defnyddio dull o'r fath, rydym yn dal i ddisgwyl iddynt fod yn glir ynglŷn â sut y bydd hyn yn caniatáu iddynt gyflawni sero net yn unol â thargedau llywodraeth genedlaethol. Rydym am i gwmnïau wneud

⁶ Llywodraeth y DU, [Gorchymyn Cyllideb Carbon](#), 2021. Llywodraeth Cymru, [Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd \(Targedau Allyriadau Interim\) \(Cymru\) \(Diwygio\)](#), 2021.

⁷ Llywodraeth EM, ['Net Zero Strategy: Build Back Greener'](#), Hydref 2021.

⁸ Rydym yn cydnabod bod y Map Trywydd wedi'i gyhoeddi cyn i lywodraethau cenedlaethol fabwysiadu chweched argymhelliad Cyllideb Carbon y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Yn ôl ein dealltwriaeth ni, mae Water UK ar hyn o bryd yn ystyried diweddariad posibl i'r Map Trywydd.

⁹ Mae'r [SBTi](#) yn diffinio ac yn hyrwyddo arfer gorau mewn lleihau allyriadau a thargedau sero net gyda'r bwriad o ddangos faint a pha mor gyflym y mae angen i sefydliadau leihau eu nwyon tŷ gwydr yn unol â Chytundeb Paris, h.y. i gyfyngu cynhesu byd-eang fel ei fod ymhell islaw 2°C yn uwch na lefelau cyn-ddiwydiannol gan yn ddelfrydol gyfyngu ar gynhesu i 1.5°C. Ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i alinio â'r angen i gyflawni sero net erbyn 2050.

hyn er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynglŷn â sut y maent yn cyfrannu at gyflawni targedau sero net llywodraeth genedlaethol, a fydd yn helpu rhanddeiliaid i ddeall yn well effaith eu gweithredoedd ar sero net.

Nid yw ein dull yn atal y diwydiant rhag mynd 'ymhellach yn gyflymach'. Rydym yn croesawu cynlluniau uchelgeisiol cwmnïau i gyflawni eu targedau tymor agosach eu hunain. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar draul lefelau'r gostyngiad a gyflawnir, mynd i'r afael ag allyriadau gweithredol a corfforedig yn gyfochrog, na sicrhau gwerth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Pa bynnag ddull a fabwysiadir, anogir cwmnïau i ddefnyddio dulliau a safonau cydnabyddedig cenedlaethol a rhyngwladol i sicrhau bod gweithredoedd ac adrodd cwmnïau ar sero net yn gadarn ac yn wiriadwy.

Rydym o'r farn mai canolbwyntio ar darged sero net 2050 y ddwy lywodraeth, a thargedau interim 2035 a 2040, yw'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen ar gyfer cyflawni sero net am y rhesymau canlynol:

- **Anogir penderfyniadau buddsoddi gwybodus, cynaliadwy a hirdymor.** Bydd cwmnïau mewn gwell sefyllfa i nodi'r opsiynau gwerth hirdymor gorau gyda thargedau tymor hir, a, gyda gwariant fesul cam, gallant sicrhau bod buddsoddiad wedi'i amseru'n dda a bod gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn parhau'n fforddiadwy i gwsmeriaid, yn enwedig gan y bydd cost carbon yn cynyddu dros amser.
- **Anogir arloesi i ddatrysiadau hirdymor.** Bydd canolbwyntio buddsoddiad ar ddatrysiadau arloesol a hirdymor yn galluogi gwell canlyniadau i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd. Gall buddsoddi mewn rhai canlyniadau tymor byr fod yn is-optimaidd ar gyfer nodau tymor hwy a chyfyngu ar fuddion posibl ehangach.
- **Mae'n sicrhau bod cwmnïau'n gallu canolbwyntio ar leihau allyriadau gweithredol a chorfforedig gyda'i gilydd,** a gall hyn greu cyfleoedd i gwmnïau integreiddio ymatebion i leihau carbon, creu enillion o ran effeithlonrwydd ac arbed costau o synergeddau.
- **Mae'n caniatáu i gwmnïau ddefnyddio dull cynllunio addasol ar gyfer lleihau allyriadau,** gan ysgogi cyfleoedd posibl yn y dyfodol wrth iddynt ddod yn ymarferol.
- **Dileu'r angen i ddibynnu ar wrthbwysu i gyrraedd targedau tymor agosach.**
- **Mae mwy o le i arbed costau** fo ddysgu trwy wneud.
- **Hwylusir mabwysiadu datrysiadau tymor hwy seiliedig ar natur ar gyfer economi gylchol sy'n fwy cyfannol** a argymhellir yn gryf gan SBTi.

3. Cwmpas gweithredu cwmnïau ar sero net

Rydym yn disgwyl i weithredu cwmnïau ar sero net gwmpasu allyriadau gweithredol a chorfforedig

Mae ymrwymiad 2050 llywodraethau'r DU a Chymru i sero net yn gofyn am leihau allyriadau gweithredol a chorfforedig. Felly, rhaid rhoi'r camau i fynd i'r afael â'r ddwy ffynhonnell allyriadau ar waith yn gyfochrog os yw'r diwydiant am gyflawni sero net erbyn 2050. Hyd yma, bu'r diwydiant dŵr yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau allyriadau NTG gweithredol, gyda Map Trywydd 2030 yn ymdrin ag allyriadau gweithredol yn unig. Os yw'r diwydiant dŵr am gyflawni sero net, rhaid iddo hefyd sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau corfforedig, h.y. yr allyriadau hynny sy'n gysylltiedig ag adeiladu a/neu osod ased adeiledig, gan gynnwys allyriadau a achosir trwy echdynnu deunyddiau a gweithgynhyrchu/prosesu, cludo a chydosod pob cynnyrch ac elfen yn yr ased¹⁰.

Rydym am osgoi'r risg y gallai ffocws gweithredol yn unig arwain nid dim ond at allyriadau corfforedig yn cael eu hesgeuluso, ond camau a gymerir i leihau allyriadau gweithredol yn arwain at gynnydd mewn allyriadau corfforedig. Gwaethygir y risg hon gan adrodd gwael sy'n cuddio cynnydd mewn allyriadau o'r fath. Bydd sicrhau bod allyriadau gweithredol a chorfforedig yn cael eu hystyried yn gyfochrog ac yr adroddir arnynt yn gadarn yn helpu i osgoi hyn.

Er mwyn helpu i annog sicrhau sero net ymhellach, rydym yn bwriadu cyflwyno ymrwymiad perfformiad allyriadau NTG gweithredol cyffredin yn PR24, gyda'r un diffiniad â'n [canllawiau cyfrifyddu rheoliadol](#)¹¹. Rydym hefyd yn edrych ar ymarferoldeb cyflwyno ymrwymiad perfformiad cyffredin ar gyfer allyriadau NTG corfforedig, gan adeiladu ar yr hyn a adroddir gan gwmnïau yn eu hadroddiadau perfformiad blynyddol.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddatblygu cynlluniau i leihau allyriadau NTG gweithredol a chorfforedig hyd at 2030 a thu hwnt i 2050 am y rhesymau canlynol:

- Rhaid lleihau allyriadau NTG gweithredol a chorfforedig **fer mwyn cyflawni targedau sero net y llywodraeth**.
- Bydd ei gwneud hi'n ofynnol cael gweithredu ar y ddau fath o allyriadau yn helpu i **sicrhau na weithredir ac adroddir ar un ffynhonnell allyriadau er anfantais i'r amgylchedd ehangach** a chenedlaethau'r dyfodol.
- Bydd dull cyfochrog ar gyfer lleihau allyriadau gweithredol a chorfforedig yn helpu i **ddiogelu rhag i benderfyniadau gael eu gwneud ar wahân** fel bod allyriadau gweithredol yn cael eu blaenoriaethu cyn gweithredu ar allyriadau corfforedig **gan beryglu amnewid asedau yn ddiangen er mwyn lleihau allyriadau gweithredol**.

¹⁰ WBCSD a WRI, [The Greenhouse Gas Protocol: A Corporate Accounting and Reporting Standard](#).

¹¹ Ofwat, ['PR24 a thu hwnt: Ymrwymadau perfformiad ar gyfer adolygiadau prisiau yn y dyfodol'](#). Tachwedd 2021.

- **Gellir gwneud y defnydd gorau o arloesi ac arbed costau** gyda datrysiadau sy'n mynd i'r afael â'r ddwy ffynhonnell allyriadau.

Cynnydd ar riportio allyriadau NTG

Bydd adrodd mwy cynhwysfawr yn galluogi cwmnïau i ddangos yn well eu cynnydd ar sero net, gwneud penderfyniadau gwybodus am gamau i'w cymryd, a chyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol. Mae cysondeb dulliau mesur hefyd yn hanfodol er mwyn cymharu a chyferbynnu cynnydd. Dyma pam rydym wedi datblygu a mabwysiadu adrodd gorfodol safonedig ar allyriadau gweithredol ar gyfer 2021-22 ymlaen, ac yn bwriadu cyflwyno adrodd gorfodol safonedig ar allyriadau corfforedig. Rydym yn cydnabod bod allyriadau corfforedig yn fwy heriol gyda dulliau llai sefydledig ar gyfer adrodd. Byddwn yn gweithio gyda'r sector gyda'r nod o gyflwyno math o adrodd safonedig gorfodol ar allyriadau NTG corfforedig ar gyfer 2022-23, yn amodol ar ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r gofynion a'r bwriadau hyn trwy'r newidiadau diweddaraf i [Regulatory Accounting Guidelines](#) Ofwat.

4. Blaenoriaethu gostyngiadau

Rydym yn disgwyl i gwmnïau flaenoriaethu dileu a lleihau allyriadau NTG cyn defnyddio mesurau gwrthbwysu

Rydym yn gwybod bod cwmnïau, fel rhan o'u cynlluniau rheoli carbon strategol, yn edrych ar wrthbwysu fel ffordd ychwanegol i leihau'n uniongyrchol eu hallyriadau. Mae Hierarchaeth Rheoli NTG yn annog cwmnïau i leihau allyriadau NTG trwy ganolbwyntio'n gyntaf ar ddileu allyriadau trwy atal allyriadau NTG ar draws y cylch bywyd. Yna mae'n annog cwmnïau i leihau eu hallyriadau NTG trwy optimeiddio ac effeithlonrwydd. Yna dilynir hyn gyda chanolbwyntio ar yr amnewidion defnydd megis ynni adnewyddadwy a thechnolegau carbon isel. Yn olaf, dylid gwneud iawn am allyriadau gweddilliol trwy ddefnyddio mesurau gwrthbwysu, megis plannu coed¹². Rydym yn ystyried y dilyniant hwn o gamau gweithredu ar allyriadau NTG yn arfer gorau a'r dull y dylai cwmnïau ei fabwysiadu.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau allu dangos yn glir eu bod yn dilyn yr Hierarchaeth Rheoli NTG, gyda mesurau gwrthbwysu yn cael eu defnyddio fel dewis olaf. Rydym o'r farn bod gwrthbwysu yn briodol dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae camau i leihau allyriadau yn afresymol o ddrud neu'n anymarferol yn y tymor byr. Lle nad oes modd osgoi allyriadau, dylai'r camau i'w lleihau yn gyntaf fod yn unol ag egwyddorion economi gylchol. Hynny yw, dylid cael gwared ar allyriadau trwy ddulliau arloesol ym maes rheoli gwastraff, er enghraifft, defnyddio slwtsh carthion fel dewis arall i wrteithwyr seiliedig ar danwydd ffosil neu ddal amonia i gynhyrchu gwrteithwyr. Dim ond pan fydd yr opsiynau hyn wedi'u disbyddu y dylid defnyddio mesurau gwrthbwysu i gael gwared ar allyriadau gweddilliol. Pan gynigir mesurau gwrthbwysu, rydym yn disgwyl i gwmnïau fod yn glir ynglŷn â'r rôl y bydd gwrthbwysu yn ei chwarae yn eu cynlluniau sero net 2050 hirdymor, a sut mae'r gweithgaredd yn cyd-fynd â swyddogaethau'r cwmni, er mwyn cyfiawnhau buddsoddiad.

Pan gynigir mesurau gwrthbwysu, rydym yn disgwyl i gwmnïau fod yn glir ynglŷn â'r effaith y byddant yn ei chael ar leihau allyriadau NTG yn yr hirdymor a'r tymor agos, gyda mesurau gwrthbwysu yn cael eu trin fel unrhyw ased arall. O ganlyniad, bydd angen datblygu dulliau cadarn ar gyfer adrodd a gwirio mesurau gwrthbwysu, gan gynnwys sut y cânt eu monitro i sicrhau eu bod yn perfformio yn unol â'r bwriad¹³. Yn dibynnu ar ddefnydd cwmnïau, efallai y byddwn yn ystyried cyhoeddi canllawiau pellach ar riportio a gwirio mesurau gwrthbwysu.

Bydd monitro effeithiol a chadarn ym maes gwrthbwysu hefyd yn bwysig er mwyn galluogi ailddyrrannu neu fasnachu asedau o'r fath yn y dyfodol, yn enwedig os yw datblygiadau technolegol yn gwneud eu defnydd yn ddarfodedig ar gyfer cwmni. Yn ogystal, pan gynigir defnyddio mesurau gwrthbwysu, disgwylir y byddant ar y dechrau o fudd uniongyrchol i'r

¹² IEMA, '[GHG Management Hierarchy](#)', 2020.

¹³ Fel enghraifft o ganllawiau defnyddiol yn y maes hwn, rydym yn argymhell bod cwmnïau'n ymgynghori ag '[Egwyddorion Gwrthbwysu Rhydychen](#)', 2020.

ardal a'r cymunedau y mae'r cwmni'n gweithredu ynddynt. Dylid egluro ymgysylltiad a chefnogaeth cwsmeriaid ar gyfer defnyddio mesurau gwrthbwysu o'r fath.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddilyn Hierarchaeth Rheoli NTG gan ddefnyddio mesurau gwrthbwysu fel y dewis olaf am y rhesymau canlynol:

- Mae **blaenoriaethu lleihau allyriadau NTG** yn ganolog i gyflawni sero net, yn enwedig gan fod graddfa'r gostyngiadau mewn allyriadau sydd eu hangen i gyflawni sero net yn fwy na'r gwrthbwysu sydd ar gael.
- Gall **dibynnu ar wrthbwysu rwystro arloesedd a thwf yr economi gylchol** trwy ganiatáu i arferion a allai fod yn wael ac yn aneffeithlon barhau a thynnu sylw oddi wrth y datrysiadau hirdymor sydd eu hangen i leihau allyriadau.
- **Rydym am annog penderfyniadau buddsoddi cadarn** a llywio cwmnïau i ganolbwyntio ar newidiadau mewn prosesau ac arloesedd technolegol i fynd i'r afael â phroblemau allyriadau. Mae caniatáu mesurau gwrthbwysu sydd heb fawr o brawf yn gallu tanseilio'r nod hwn.

5. Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau, a byddem yn croesawu gweithio gyda Water UK, i ddatblygu ymhellach ein syniadaeth ar agweddau allweddol ein polisi sero net a sut y gallwn gydweithredu fel sector i wynebu heriau sero net. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chwmnïau ynglŷn â'r ffordd orau i hwyluso'r newid i sero net, er enghraifft trwy ein dull ar gyfer asesu costau yn PR24.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL